

Dyddiad: 16 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithiwr

Coronafeirws (COVID-19)

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 10 Mawrth, rydym yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y ffordd y mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ymateb i'r achosion o COVID-19.

O ganlyniad i'r heriau sylweddol sy'n newid yn gyflym y mae'r sector gofal plant a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yn sgil Coronafeirws (COVID-19), rydym wedi penderfynu gohirio pob arolygiad arferol o 5pm heddiw, 16 Mawrth. Byddwn yn parhau i arolygu unrhyw wasanaeth lle mae gennym bryderon sylweddol am ddiogelwch a llesiant pobl. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried yr angen i gynnal arolygiadau mewn perthynas â phryderon a godir â ni.

Rydym wedi dod i'r penderfyniad hwn er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol a darparwyr ganolbwyntio ar gynnal iechyd a diogelwch y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, a'u staff, yn yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Ein blaenoriaeth allweddol yw parhau i roi sicrwydd i'r cyhoedd a Gweinidogion am ddiogelwch gwasanaethau. Bydd ein penderfyniadau'n seiliedig ar dair prif egwyddor i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel:

- byddwn yn canolbwyntio ein gweithgarwch lle mae ei angen fwyaf er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel – mae hyn yn golygu canolbwyntio ar y meysydd hynny lle rydym o'r farn bod y risg i ansawdd y gofal ar ei uchaf, a lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf
- byddwn yn cefnogi darparwyr drwy ystyried sut y gallwn weithredu'n hyblyg ac yn gymesur

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Merthyr Tudful
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 7900 126

✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Swyddfa Merthyr Tudful
Llywodraeth Cymru
Government Buildings
Rhydycar Business Park
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Byddwn yn cydymffurfio â'n dyletswydd i ofalu am ein cydweithwyr yn AGC

Rydym yn ystyried yn ofalus y ffordd orau y gallwn gefnogi'r sector gofal plant a gofal cymdeithasol i gyflawni'r gwaith hollbwysig y mae'n ei wneud i ofalu am bobl.

Byddwn yn rhannu diweddariadau â chi drwy ein sianeli cyfathrebu rheolaidd, fel bwletinau'r darparwyr, ein sianeli Twitter a Facebook, a'n gwefan. Gellir gweld y wybodaeth swyddogol gyffredinol ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yma:

- <https://llyw.cymru/coronafeirws>
- <https://icc.gig.cymru>.

Rydym yn disgwyl i bob darparwr ddilyn cyngor ac arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i bethau ddatblygu.

Yn gywir



Gillian Baranski
Prif Arolygydd
Arolygiaeth Gofal Cymru